# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Dewi Sant

Dyddiad yr arolygiad: 18/05/2026

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae arweinwyr yn hyrwyddo ethos cynhwysol ac wedi sefydlu diwylliant cadarnhaol sy'n canolbwyntio'n glir ar les a dysgu disgyblion. Mae eu gweledigaeth, sy'n seiliedig ar anogaeth a chefnogaeth gyson, yn arwain at ymddygiad ardderchog ymysg disgyblion ynghyd â brwdfrydedd at eu dysgu. Mae ymroddiad arweinwyr at werthuso a gwella'r ddarpariaeth yn rheolaidd yn sicrhau hinsawdd o welliant parhaus.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo datblygiad staff yn fwriadus, ac mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae llywodraethwyr yn cefnogi ac yn herio arweinwyr yn ddoeth, gan ganolbwyntio ar wella darpariaeth trwy drefniadau monitro manwl. Mae dyraniad synhwyrol o ran rolau a chyfrifoldebau yn ystyried baich gwaith a lles staff yn effeithiol. Mae cyfleoedd dysgu cyfoethog, gan gynnwys teithiau addysgol, yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u cynefin yn bwrpasol ac yn hyrwyddo'u hymdeimlad o berthyn i gymuned yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion leisio barn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd yr ysgol.

Ar y cyfan, mae sesiynau addysgu'n fyrlymus ac, yn yr arferion gorau, mae athrawon yn darparu gweithgareddau difyr sy'n ymateb yn ddeallus i ddiddordebau disgyblion. O ganlyniad, mae cynnydd disgyblion yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn gadarn, gan ystyried eu mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw'r her yn y gweithgareddau a ddarperir gan athrawon i annog annibyniaeth disgyblion yn eu dysgu yn ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd cynnes a theyrngar, ac mae athrawon yn annog cydweithio a rhannu syniadau yn ystyrlon. Maent yn darparu adborth priodol i gefnogi dysgwyr i wella, ond nid yw ansawdd yr adborth yn arwain at gamau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae'r amgylchedd dysgu yn gartrefol ac ysgogol, gydag ystod dda o adnoddau tu mewn a thu allan i'r adeilad sy'n cefnogi'r dysgu'n llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn cynnig profiadau eang sy'n adeiladu'n systematig ar fedrau disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Dros amser, mae disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol, emosiynol a chreadigol gwerthfawr sy'n meithrin tosturi ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol barchus.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau bod gweithgareddau’n cefnogi disgyblion i wella’u medrau dysgu annibynnol

A2 Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn effeithiol.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/07/2026